Ein cyf/Our ref: CX18-111

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Chiefexecutivesoffice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Chiefexecutivesoffice@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4453

Mr Nick Ramsay
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Ionawr 2019

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18**

Diolch ichi am Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar yr uchod, a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2018. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod ac yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r tri argymhelliad sydd wedi ei gynnwys ynddo.

**Argymhelliad 1** - Rydym yr argymell fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu â'r Pwyllgor hwn ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar ôl iddo ddod i ben, a ddylai ddigwydd ddiwedd 2018. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r cyhoedd.

***Derbyn*** – Bydd yr adolygiad annibynnol gan Grant Thornton yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2019. Byddwn yn darparu canfyddiadau'r adolygiad annibynnol i'r Pwyllgor cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror 2019. Bydd y canfyddiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Argymhelliad 2 –** Mae'r Pwyllgor yn argymell fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio cynllun gweithredu gydag amcanion cyflawni ac amserlenni clir. Rhaid i'r cynlluniau hyn gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen ar gyfer ei weithredu sy'n codi o'r adolygiad annibynnol. Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru rannu'r cynlluniau hyn â'r Pwyllgor ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

***Derbyn*** - Byddwn yn darparu cynllun gweithredu i'r Pwyllgor fel rhan o'n tystiolaeth ar gyfer ein sesiwn nesaf gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019.

**Argymhelliad 3 -** Rydym yn argymell os bydd canfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar fethiannau llywodraethu yn annigonol, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal ar unwaith ar lywodraethu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan archwilio sut y bu'n bosibl i'r methiannau hyn ddigwydd.

***Derbyn*** – Nid yw’r argymhelliad hwn yn fater i Cyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol ac rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb ar yr argymhelliad hwn.

Bydd y canfyddiadau a’r cynllun gweithredu y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i argymhellion 1 a 2 yn cael eu trafod yng nghyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr. Oherwydd amseru’r Bwrdd, bydd y dystiolaeth yn cael ei darparu ichi erbyn 4 Chwefror.

Yr eiddoch yn gywir

Yours sincerely

Clare Pillman
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

CC. Sir David Henshaw
Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru ***/*** Chair, Natural Resources Wales